Hawdd ei Ddeall

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Rheolau ar gyfer defnyddio gwasanaethau cyfieithu ar y pryd a chyfieithu mewn gofal iechyd



Mae'r ddogfen yma wedi cael ei hysgrifennu gan Lywodraeth Cymru. Mae'n fersiwn hawdd ei ddeall o **'Gweithdrefn Weithredu Safonol: Comisiynu gwasanaethau cyfieithu ar y pryd a chyfieithu mewn gofal iechyd sylfaenol a brys'**.

Awst 2025

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Am y rheolau yma | 3 |
| Pwy mae'r rheolau'n helpu | 4 |
| Beth mae'r gyfraith yn ei ddweud | 6 |
| Beth mae'n rhaid i wasanaethau gofal iechyd ei wneud | 7 |
| Trefnu gwasanaethau | 16 |
| Mwy o wybodaeth | 17 |
| Gwybodaeth Iechyd Hawdd ei Ddeall | 20 |
| Gwybodaeth Archwiliadau Iechyd Blynyddol Hawdd ei Ddeall | 20 |



Daw'r lluniau yn y ddogfen hon o Photosymbols:
[www.photosymbols.com/](www.photosymbols.com/)


OGL © Hawlfraint y Goron 2025, Llywodraeth Cymru, WG51371, ISBN digidol 978-1-80633-028-7
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg

# Am y rheolau yma

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ni ydy Llywodraeth Cymru.




Mae'r rheolau yma i helpu staff y GIG yng Nghymru.



Maen nhw'n dweud sut i drefnu **gwasanaethau cyfieithu ar y pryd** neu **gyfieithu** i gleifion.



Mae cyfieithu yn meddwl newid geiriau ysgrifenedig i iaith arall.




Mae cyfieithu ar y pryd yn meddwl newid geiriau llafar i iaith arall.

Mae'r rheolau yma ar gyfer practisau meddygon teulu a gofal brys.
Mae gwasanaethau eraill yn gallu eu defnyddio hefyd. Er enghraifft, deintyddion ac ysbytai.

# Pwy mae'r rheolau'n helpu




Mae'r rheolau yma yn cefnogi pobl sydd angen help ychwanegol i ddeall neu gyfathrebu.



Mae gwasanaethau cyfieithu ar y pryd a chyfieithu yn helpu pobl sy'n siarad gwahanol ieithoedd a sydd angen gwybodaeth mewn ffordd wahanol er mwyn gallu ei ddeall.

Mae hyn yn meddwl pobl sydd:



- Yn F/fyddar, wedi colli eu clyw, neu'n drwm eu clyw.



- Yn defnyddio Iaith Arwyddion Prydain.



- Yn ddall neu gyda golwg gwael.
- Yn fyddar-ddall.



- Yn anabl.



- Â dementia.



- Yn niwrowahanol.
  Mae niwrowahanol yn meddwl pobl ag ymennydd sy'n gweithio'n wahanol. Er enghraifft, mae awtistiaeth yn gyflwr niwrowahanol.



- Yn gweld darllen neu ysgrifennu yn anodd.



- Yn rhieni neu ofalwyr sy'n ei chael hi'n anodd deall neu gyfathrebu.




- Ddim yn siarad Cymraeg na Saesneg fel eu prif iaith.

Mae'r rheolau yn berthnasol i oedolion, pobl ifanc a phlant.

# Beth mae'r gyfraith yn ei ddweud




Mae'r **gyfraith** yn dweud bod rhaid i bawb gael eu trin yn deg.



Mae gan bawb anghenion gwahanol. Ond mae'n rhaid iddyn nhw gael gwasanaethau teg a chyfartal, sy'n iawn i'w hanghenion.

# Beth mae'n rhaid i wasanaethau gofal iechyd ei wneud

## 1. Mynediad at wasanaethau

Fe ddylai pawb gael yr un gofal, waeth sut maen nhw'n cyfathrebu.



Fe ddylai gwasanaethau cyfieithu a chyfieithu ar y pryd fod yn rhad ac am ddim ac yn hawdd eu cael.



Ni ddylai cleifion byth talu na dod â'u cyfieithydd eu hunain.



Fe ddylai'r gwasanaeth iechyd ateb yr angen yma i bob claf ag anghenion cyfathrebu. Mae hyn yn cynnwys gofalwyr a rhieni.

Rhaid i apwyntiadau fod yn hirach os oes angen.



Rhaid i staff gofnodi anghenion cyfathrebu pobl ar eu ffeil.

Mae gan y claf hawl i gael y gwasanaethau yma.

**2. Archebu cyfieithydd**

Rhaid i'r gwasanaeth iechyd archebu'r cyfieithydd.



Rhaid i staff roi'r holl wybodaeth maen nhw ei angen i'r cyfieithydd.



Mae'n dda dweud wrth y claf am y cyfieithydd o flaen llaw.

Rhaid i gyfieithwyr fod wedi'u hyfforddi, yn fedrus ac yn gallu siarad am bethau meddygol.

Fe ddylid rhoi gwasanaethau mewn ffordd sy'n ateb anghenion claf orau. Mae hyn yn gallu meddwl:



- Cyfarfodydd wyneb yn wyneb.
- Galwadau ffôn neu fideo.



- Gwybodaeth ysgrifenedig.

## 3. Amser ac aros



- Ni ddylai pobl gorfod aros yn hirach oherwydd eu hanghenion.




- Fe ddylai staff rannu gwybodaeth am y gwasanaethau cyfieithu ar y pryd mewn ffordd sy'n iawn i'r person. Er enghraifft, poster hawdd ei ddeall.




- Fe ddylai cleifion wybod bod gwasanaethau cyfieithu ar y pryd ar gael.



- Fe ddylai cleifion gael eu galw i’w hapwyntiad mewn ffordd maen nhw’n gallu ei ddeall.

**4. Mae pobl yn dod yn gyntaf**



Fe ddylai cleifion gael cymorth sy’n iawn iddyn nhw.



Fe ddylai staff ofyn i gleifion beth ydy eu hanghenion cyfathrebu a chofnodi hyn ar eu ffeil.



Os ydy claf eisiau aelod o’r teulu neu ffrind i’w cefnogi, fe ddylai hyn fod ar eu cofnod.



Pan mae'n bosibl, fe ddylai staff ofyn i gleifion pwy maen nhw eisiau fel cyfieithydd. Er enghraifft, efallai bydd yn well ganddyn nhw ddyn neu fenyw. Mae hyn yn bwysig ar gyfer apwyntiadau preifat neu bersonol.

## 5. Cadw pobl yn ddiogel

- Fe ddylai cyfieithwyr ar y pryd fod yn gymwys ac wedi'u hyfforddi i weithio mewn lleoliadau iechyd.



- Fe ddylen nhw gael gwiriad heddlu.
- Fe ddylen nhw wybod am gadw pobl yn ddiogel a sut i hysbysu pryderon.




- Fe ddylen nhw wybod am y deddfau am Galluedd Meddyliol. Mae galluedd meddyliol yn meddwl gallu deall pethau a gwneud dewisiadau am eich bywyd.



- Fe ddylai gwybodaeth bersonol pobl fod yn ddiogel ac yn breifat.

## 6. Cwynion a phryderon



Rhaid i bobl allu rhannu beth maen nhw'n ei feddwl am y gwasanaethau. Mae adborth yn gallu bod yn dda neu'n ddrwg.



Fe ddylai pobl ddefnyddio eu ffordd eu hunain o rannu hyn.

Rhaid i wasanaethau roi:

- Ffyrdd clir, preifat o roi adborth.




- Ffurflenni adborth mewn gwahanol ieithoedd a fformatiau.

Rhaid i ymatebion i gwynion fod yn y ffordd mae'r person yn ei ddewis i gyfathrebu.

## 7. Cyfieithu dogfennau

Rhaid i rai dogfennau fod mewn fformat mae'r person yn ei ddeall.

Mae'r rhain yn gallu cynnwys:



- Canlyniadau profion
- Gwybodaeth am lawdriniaeth
- Cofnodion gofal



Rhaid i gleifion gael y rhain am ddim.

Fe ddylai dogfennau fod ar gael yn:




- Hawdd ei Ddeall



- Braille



- Iaith Arwyddion Prydain (BSL)




- Ieithoedd eraill



Fe ddylai staff iechyd allu cael y rhain yn gyflym. Rhaid i gleifion beidio ag aros yn rhy hir.

Mae'n ddefnyddiol cael dogfennau sy'n cael eu defnyddio'n aml yn barod yn y fformatiau yma.




Rhaid i gleifion wybod eu bod nhw'n gallu gofyn am eu gwybodaeth mewn fformat arall. Er enghraifft, Hawdd ei Ddeall.

## 8. Gwirio ansawdd da



Fe ddylai gwasanaethau cyfieithu a chyfieithu ar y pryd gael eu harchwilio i wneud yn siŵr eu bod yn dda.



Fe ddylai pobl sydd wedi defnyddio'r gwasanaethau yma rannu beth maen nhw'n feddwl amdanyn nhw.

# Trefnu gwasanaethau



Wrth ddewis darparwyr gwasanaethau cyfieithu ar y pryd a chyfieithu, rhaid i staff ystyried:

- Gwybodaeth am bobl leol.




- Y gyfraith.
- Cost gwasanaethau.



- Problemau cyfathrebu mae pobl yn eu hwynebu.
- Pa wasanaethau iechyd maen nhw’n eu cynnwys.




- Pa wasanaethau cyfieithu sydd ganddyn nhw yn barod, pa mor aml maen nhw’n eu defnyddio ac ar gyfer beth.
- Gofyn i gleifion am adborth.

# Mwy o wybodaeth

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Dyma 1 o 3 dogfen newydd sydd wedi cael ei gwneud gan Lywodraeth Cymru gyda phartneriaid.



Y ddogfen gyntaf ydy **Safonau Cyfathrebu a Gwybodaeth Hygyrch Cymru**.

Mae'r Safonau yma yn dweud beth mae'n rhaid i wasanaethau gofal iechyd ei wneud i gyfathrebu â phobl.




Mae dogfen hawdd ei ddeall am y Safonau yma: www.llyw.cymru/gweithdrefn-weithredu-safonol-comisiynu-gwasanaethau-cyfieithu-chyfieithu-ar-y-pryd-ym-maes-gofal



Yr ail ddogfen ydy'r **Safon Gwybodaeth Hygyrch ar gyfer meddygon teulu**.

Mae'r SGH yn helpu practisau meddygon teulu i roi'r help cywir i bobl sy'n gweld cyfathrebu yn anoddach.




Mae dogfen hawdd ei ddeall am y SGH yma: [www.llyw.cymru/gweithdrefn-weithredu-safonol-comisiynu-gwasanaethau-cyfieithu-chyfieithu-ar-y-pryd-ym-maes-gofal](www.llyw.cymru/gweithdrefn-weithredu-safonol-comisiynu-gwasanaethau-cyfieithu-chyfieithu-ar-y-pryd-ym-maes-gofal)



Y drydedd ddogfen ydy **Rheolau newydd ar gyfer staff y GIG sy'n defnyddio gwasanaethau cyfieithwyr ar y pryd a chyfieithu mewn gofal iechyd**.

Mae'r rheolau yma yn dweud sut i drefnu gwasanaethau cyfieithu ar y pryd neu gyfieithu i gleifion.




Mae cyfieithu yn meddwl newid geiriau ysgrifenedig i iaith arall. Mae cyfieithu ar y pryd yn meddwl newid geiriau llafar i iaith arall.

Fe fydd y rheolau a'r safonau yma i gyd yn helpu pobl:

- Deall eu hiechyd a'u gofal




- Teimlo'n hyderus i ofyn cwestiynau

- Gwneud dewisiadau da



- Cadw'n iach

Am ragor o wybodaeth ar y rheolau a'r safonau newydd:




Ewch i'n gwefan: www.llyw.cymru/safonau-cyfathrebu-gwybodaeth-hygyrch-mewn-gofal-iechyd




Neu anfonwch e-bost atom ni yn: hsceyg.equalityteam@gov.wales

## Gwybodaeth Iechyd Hawdd ei Ddeall




I gael gwybodaeth iechyd hawdd ei ddeall, rhowch gynnig ar Iechyd A-Z Hawdd ei Ddeall GIG Cymru: 111.wales.nhs.uk/easyreads/easyread.aspx

## Gwybodaeth Archwiliadau Iechyd Blynyddol Hawdd ei Ddeall




Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi creu pecyn adnoddau hawdd ei ddeall ar gyfer **Archwiliadau Iechyd Blynyddol**.

Yn y pecyn mae gwybodaeth ddefnyddiol ac adnoddau hawdd ei ddeall i'ch helpu i gael eich Archwiliad Iechyd Blynyddol.




Mae ar gael yma: bit.ly/HawddeiDdeallAIB